



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Blwyddyn yn ddiweddarach

## Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

Mai 2017

**Crynodeb i bobl ifanc**

# Cyflwyniad

Yn 2016, fe ddechreuodd Llywodraeth Cymru gynllun newydd o'r enw:

**Codi uchelgais a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.**

**Yn derbyn gofal** – pan mae awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb rhiant fel bod plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael y pethau sydd eu hangen arnyn nhw.

Fe ddylai pawb fod â breuddwydion, uchelgeisiau a chyfleoedd. Mae addysg yn gallu'ch helpu chi i gyrraedd nodau a chael mwy o gyfleoedd mewn bywyd.

Mae rhai plant yn wynebu materion sy'n ei gwneud hi'n fwy anodd gwneud yn dda yn yr ysgol.

**Dydy hyn ddim yn iawn.**

Dylai'ch cefndir chi mo'ch rhwystro rhag gallu cyrraedd eich nodau.

Mae'r cynllun yma'n edrych ar sut mae plant yn cael cymorth a chyfleoedd i gyrraedd eu nodau.



## Blwyddyn yn ddiweddarach

Mae'r llyfryn yma'n dweud wrthych chi beth y buom ni'n ei wneud yn 2016.
Mae hefyd yn dweud wrthych chi beth rydyn ni'n bwriadu ei wneud yn 2017–18.

Mae yna chwe phrif faes rydyn ni'n canolbwyntio arnyn nhw:

1. Arweiniad – rolau a chyfrifoldebau
2. Meithrin partneriaethau a chydweithio
3. Dysgu ac addysgu
4. Defnyddio data'n well
5. Defnyddio cyllid yn well
6. Cyfranogiad.



# 1. Arweiniad – rolau a chyfrifoldebau

**Mae'r cynllun yn dweud:**
Bod yn rhaid i bawb wneud eu gwaith yn dda bob amser. Rydyn ni eisiau:

- cael arweiniad cryf sy'n gweithio'n dda
- i awdurdodau lleol edrych ar rolau gweithwyr a'u newid nhw os oes angen
- i ysgolion ddeall anghenion plant a bod â'r staff iawn gyda'r sgiliau iawn.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- helpu **consortia rhanbarthol** i gael prif berson arweiniol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- cynhyrchu canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion – caiff hwn ei gyhoeddi cyn bo hir
- ysgrifennu cod ymarfer newydd ar rôl y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu i helpu pobl mewn ysgolion i ddeall y problemau y mae plant yn eu hwynebu mewn addysg
- gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu i gyhoeddi canllaw ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu, sef '*Canllaw gofalwr maeth i addysg*'
- gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu i hyfforddi gofalwyr maeth
- helpu'r Rhwydwaith Maethu i ysgrifennu adnodd newydd o'r enw '*Gwneud iddo ddigwydd*'.

**Consortia rhanbarthol** – sy'n gofalu am addysg pob dysgwr yn eu hardal.

**Person dynodedig yn yr ysgol** – sy'n gwneud yn siŵr bod plant yn ddiogel.



# 1. Arweiniad – rolau a chyfrifoldebau (parhad)

### Awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

Mae pob consortiwm rhanbarthol yn cynllunio sut i ddefnyddio arian y **Grant Datblygu Disgyblion**. Maen nhw'n gweithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion fel bod y plant i gyd yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

Gyda'i gilydd, maen nhw wedi:

- gwneud yn siŵr bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n iawn
- cefnogi **Cydgysylltwyr Plant Sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg**

**Grant Datblygu Disgyblion** – arian ychwanegol y mae ysgol yn gallu ei ddefnyddio i gefnogi anghenion.

**Cydgysylltwyr Plant Sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg** – sy'n gweithio gyda phlant yn yr ysgol i lunio cynlluniau dysgu a chael cymorth iddyn nhw.

Maen nhw hefyd wedi cytuno y caiff y grant ei ddefnyddio:

- ar gyfer hyfforddi staff ysgol, hyfforddwyr maethu, gofalwyr/rhieni sy'n mabwysiadu a llywodraethwyr ysgol
- ar gyfer hyfforddi cydgysylltwyr
- i gael ysgolion i gydweithio a dysgu oddi wrth ei gilydd
- i redeg cronfa grantiau bach i helpu grwpiau neu bobl.

### Mae ysgolion a cholegau:

- wedi bod yn dysgu oddi wrth ei gilydd ac yn rhannu arfer da
- wedi penodi person arweiniol dynodedig sy'n rhan o'u pecyn cymorth i fyfyrwyr
- wedi llunio 'pecyn cymorth' gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith hefyd wedi cefnogi saith coleg i gael Marc Safon i ddangos bod ganddyn nhw systemau ar waith i gefnogi'r rheini sy'n gadael gofal.



## Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

**Fe fyddwn ni:**

- yn edrych ar ba hyfforddiant arall fyddai'n helpu staff
- yn dal ati i weithio ar y prosiect Maethu Lles
- yn cael awdurdodau lleol i wirio rolau gweithwyr a gwneud newidiadau os oes angen
- yn gwneud yn siŵr bod addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn dal ati i weithio gyda'i gilydd.



# 2. Meithrin gwell partneriaethau a chydweithio

**Mae'r cynllun yn dweud:**
Bod angen i ni weithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, addysg, gofalwyr maeth, ac eraill i gefnogi plant.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- sefydlu Grŵp Strategol Cenedlaethol o weithwyr proffesiynol
- gweithio gyda CASCADE – Prifysgol Caerdydd, i greu cymuned ar-lein newydd o arfer i weithwyr, gydag astudiaethau achos, adnoddau a chanllawiau
- rhedeg digwyddiadau i gysylltu gweithwyr a meithrin rhwydwaith gwell
- derbyn adroddiad Estyn ar '*Godi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal*'
- dechrau ysgrifennu canllawiau ar rannu gwybodaeth
- sefydlu Grŵp Cynghori'r Gweinidog i edrych ar ffyrdd o wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.



## Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

**Fe fyddwn ni:**

- yn gweithio gyda gwasanaethau a sefydliadau fel eu bod nhw'n gallu rhoi mwy o gymorth i blant sy'n derbyn gofal
- yn helpu awdurdodau lleol i rannu arfer da a chefnogi ei gilydd
- yn datblygu fframwaith (camau) newydd ar gyfer gwasanaethau maethu
- yn cael mwy o eiriolwyr ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Eiriolwr** – Rhywun sy'n eich cefnogi chi ac sy'n eich helpu chi i ddweud eich dweud.



# 3. Dysgu ac addysgu

**Mae'r cynllun yn dweud:**
Bod angen i ysgolion a cholegau ddeall eu rôl mewn gwella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- llunio rhestr cysylltiadau cenedlaethol newydd o bob gweithiwr
- gweithio gydag Adoption UK i gyhoeddi '*Cael pethau'n iawn i bob plentyn – canllaw i ysgolion ar weithio gyda phlant sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd*'
- gweithio gydag Adoption UK i gyhoeddi canllaw ar gyfer rhieni sy'n mabwysiadu, o'r enw '*Cael pethau'n iawn i bob plentyn – canllaw i rieni*'
- rhedeg arolygon mewn ysgolion a cholegau yng Nghymru
- dod o hyd i enghreifftiau o arfer da, a'u rhannu.

Mae **consortia De Ddwyrain Cymru**'n cynnwys ysgolion ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Maen nhw wedi dechrau prosiect sy'n:

- monitro presenoldeb plant sy'n derbyn gofal a pha mor dda y maen nhw'n gwneud yn yr ysgol
- gwirio bod cyllid yn gwneud gwahaniaeth
- dod o hyd i arfer da, a'i rannu
- gwirio bod y cynlluniau cymorth iawn ganddyn nhw.

**Mae ysgolion a cholegau:**

- wedi hyfforddi staff ar y materion y mae plant yn eu hwynebu
- wedi rhedeg digwyddiadau
- wedi gwneud yn siŵr bod eu person dynodedig yn rhoi'r wybodaeth iawn i fyfyrwyr.



## Beth rydyn ni'n mynd i'w wneud

**Fe fyddwn ni:**

- yn edrych ar sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu
- yn gwneud yn siŵr bod plant sy'n symud ysgol yn cael cymorth yn gyflym
- yn gweithio gyda cholegau i ysgrifennu canllaw ar sut i helpu pobl ifanc sy'n derbyn gofal pan maen nhw'n gadael yr ysgol.

Rydyn ni'n hyfforddi grŵp o bobl sy'n gadael gofal fel eu bod nhw'n gallu edrych ar golegau a dweud wrthon ni beth sy'n gweithio a beth sydd angen ei newid.



# 4. Defnyddio data'n well

**Mae'r cynllun yn dweud:**
Bod angen i ni gael ffyrdd gwell o gasglu gwybodaeth.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- gofyn i Ymddiriedolaeth Teulu Fischer ysgrifennu adroddiad
- llunio system newydd a fydd yn cymharu ystadegau o bob blwyddyn ac yn dangos i ni beth sydd angen i ni weithio arno
- edrych ar ffyrdd newydd o gasglu a chyflwyno ystadegau mewn awdurdodau lleol
- gofyn i Gydgysylltwyr Plant Sy'n Derbyn Gofal Mewn Addysg ysgrifennu canllaw ar sut i gasglu a rhannu gwybodaeth
- cael awdurdodau lleol i benderfynu pa ystadegau ydy'r rhai mwyaf defnyddiol, a sut i adrodd arnyn nhw.

# 5. Defnyddio cyllid yn well

**Mae'r cynllun yn dweud:**
Ein bod ni eisiau i gyllid wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- cefnogi consortia rhanbarthol i gydweithio fel eu bod nhw'n dod o hyd i'r ffyrdd gorau o ddefnyddio cyllid i helpu plant sy'n derbyn gofal
- cael Swyddfa Archwilio Cymru i edrych ar sut y cafodd cyllid ei ddefnyddio yn 2015–16
- gwirio cynlluniau gwario ar gyfer 2016–17
- llunio canllaw ar gyllid, a sut y dylid ei ddefnyddio.



# 6. Cyfranogiad

**Mae'r cynllun yn dweud:**

Ein bod ni eisiau cynnwys y plant a'r bobl ifanc i gyd mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

## Beth rydyn ni wedi'i wneud hyd yma

**Rydyn ni wedi:**

- gweithio gyda'r Rhwydwaith Maethu a Lleisiau o Ofal i wrando ar farn gofalwyr a phlant mewn gofal
- gwneud yn siŵr bod gan awdurdodau lleol ffyrdd o gynnwys pobl ifanc.



# Y camau nesaf

Fe fyddwn ni'n dal ati i weithio ar y cynllun yma ac fe fyddwn ni'n rhoi gwybod ichi sut mae pethau'n mynd.

Caiff yr adroddiad nesaf ei gyhoeddi yn 2018.

**Diolch yn fawr am ddarllen hwn.**

Gallwch chi gael gwybod mwy drwy fynd i:
gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/educational-attainment-of-looked-after-children



© Hawlfraint y Goron 2017
WG30640
ISBN 978 1 4734 9640 8